**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Tachwedd 2016

Annwyl Simon,

Ar ôl i fi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 19 Hydref, cytunais i ddarparu eglurhad ar lefel y benthyca a’r ddyled a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Ceir dwy brif agwedd ar y cwestiwn hwn; sef benthyca uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a benthyca gan gyrff eraill sy’n cael ei alluogi gan gyllid Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi ymdrin â phob agwedd ar wahân at ddibenion eglurder isod. Mae'r holl ffigurau wedi’u tynnu o’r flwyddyn ariannol ddiwethaf y mae gennym gyfrifon cyflawn ar ei chyfer, sef 2015-16 yn yr achos hwn, oni nodir fel arall.

<u>Benthyca gan Lywodraeth Cymru</u>

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei phwerau benthyca eto yn unol â Deddf Cymru 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi etifeddu benthyca hanesyddol adeg uno ag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA). Tynnwyd y benthyca hwn o’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF). Y ddyled sy'n dal heb ei thalu i’r NLF oedd ychydig dros £11miliwn (£11.406 miliwn) yn 2015-16.

<u>Benthyca a ariennir gan Lywodraeth Cymru</u>

Lansiwyd Grant Cyllid Tai 1 (HFG1) 2013-14 ac o dan y grant hwn mae tua £130 miliwn wedi cael ei fuddsoddi gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), gan ddarparu tua 1000 o unedau newydd o dai cymdeithasol fforddiadwy. Mae hyn yn cael ei ariannu'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhannol gan daliad refeniw blynyddol o £4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i’r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n cymryd rhan, ac fe fydd yn parhau tan 2032-33.

Offeryn arall sydd wedi rhoi hwb i fuddsoddi yw Menter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI)- sy'n darparu cyllid refeniw i’r Awdurdodau Lleol i liniaru pwysau cyllidebol ehangach ac yn eu galluogi i fenthyca ar gyfer buddsoddi mewn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Yn dilyn llwyddiant wrth ddefnyddio LGBI yn y sector trafnidiaeth, pan fuddsoddwyd £170 miliwn ym mhriffyrdd Cymru yn ystod tymor blaenorol y Cynulliad, mae'r cynllun hefyd yn galluogi rhyw £170 miliwn o gyllid i gael ei fuddsoddi yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei darparu erbyn 2018-19, ddwy flynedd yn gynt na’r bwriad gwreiddiol.

Ceir nifer o gynlluniau hanesyddol hefyd o dan y Fenter Cyllid Preifat (PFI) y bu Awdurdodau Lleol Cymru a chyrff eraill, megis Byrddau Iechyd Lleol, yn rhan ohonynt. Yn 2015-16, disgwylid i’r rhwymedigaethau refeniw fod tua £99 miliwn. Gan fod llawer o arian ar gyfer y cyrff hyn yn dod o Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig nodi’r rhwymedigaethau presennol. Er hynny, gan nad Llywodraeth Cymru yw’r awdurdod contractio yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddelir gwybodaeth am union faint y ddyled yn y cynlluniau PFI hanesyddol hyn.

<u>Benthyca yn y dyfodol</u>

Yn y Pwyllgor, buom yn trafod hefyd yn fwy penodol fynediad cynnar i fenthyca ac unrhyw gostau cyfalaf sy’n gysylltiedig â’r M4. Fel y dywedais bryd hynny, mae ein cynlluniau cyfalaf a nodir yn y Gyllideb Ddrafft yn defnyddio ein capasiti benthyca i’r eithaf dros y pedair blynedd nesaf. Yn 2017-18, mae ein cronfeydd cyfalaf yn £110 miliwn sy'n cynnwys y posibilrwydd o fenthyca £20 miliwn yn gynnar ar gyfer yr M4 os oes angen.

O ran y costau sy'n gysylltiedig â’r M4 y flwyddyn nesaf, cydnabuwyd yn y Pwyllgor ei bod yn anochel y bydd costau cyn i’r ymchwiliad cyhoeddus ddod i ben, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â’r ymchwiliad ei hun. Costau cyfalaf fydd rhai o’r costau hyn ac maent yn angenrheidiol er mwyn cadw at yr amserlen arfaethedig os na fydd y cynllun yn mynd rhagddo. Er hynny, ni fydd unrhyw waith seilwaith ffisegol yn gysylltiedig â’r M4 nes i’r ymchwiliad ddod i ben, ac fel y dywedais yn y Pwyllgor, byddem yn ceisio manteisio i'r eithaf ar yr holl gyfalaf confensiynol sydd ar gael inni cyn defnyddio ein capasiti benthyca.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government